Mawrth 2011

**Awdur: Archwilydd Cyffredinol Cymru** **Cyf: 139A2011**

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 11 |
| Er bod y trefniadau ariannol yn ddigonol yn y byrdymor, rhaid rhoi blaenoriaeth i ffurfioli'r cynllun ariannol tymor canolig | 12 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi o hyd yn datblygu cynllun ariannol tymor canolig ac, er bod trefniadau cynllunio ariannol byrdymor yn ddigonol, gellir gwneud gwelliannau i wella'r broses gynllunio gyffredinol | 12 |
| Er bod seiliau trefniadau llywodraethu da wedi'u gosod, mae angen cwblhau'r gwaith datblygu arfaethedig yn gyflym | 13 |
| Mae trefniadau ar waith i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a gweithio mewn partneriaethau effeithiol, er bod angen cyflawni gwaith pellach i atgyfnerthu'r swyddogaethau 'galluogi' a fydd o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau | 19 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyflwynwyd ers 1 Hydref 2009 | 23 |
| Ffi archwilio | 24 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiadau o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiwedd 2009 a thrwy gydol 2010. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu hwynebu, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodwyd yr adroddiadau hyn, a chytunwyd arnynt, gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Mae angen ystyried y canfyddiadau a nodwyd gennyf yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y broses ad-drefnu strwythurol fawr sydd wedi digwydd yn GIG Cymru dros y 18 mis diwethaf, a'r rhaglen o waith cenedlaethol sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, perfformiad cymysg a sefydlogrwydd ariannol. Gyda'i gilydd mae hyn yn agenda newid sylweddol a heriol iawn i'r Ymddiriedolaeth a'i staff.
5. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ar 1 Hydref 2009 ac ymgymerodd â chyfrifoldeb am nifer o swyddogaethau iechyd cyhoeddus, yn cynnwys:
    - Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre gynt));
    - Gwasanaethau Sgrinio (rhan o Felindre gynt);
    - Canolfan Iechyd Cymru (Corff a Noddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad gynt);
    - Cofrestr a Gwasanaethau Gwybodaeth ar gyfer Anomaleddau Cynhenid (rhan o Fwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg gynt);
    - Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (a oedd wedi'i lleoli gynt yn Felindre).
6. Yn wahanol i gynifer o sefydliadau eraill y GIG yr effeithiwyd arnynt gan ad-drefnu'r GIG, ni chafodd yr Ymddiriedolaeth y fantais o gael cyfnod 'cysgodol' cyn iddi gael ei sefydlu. O ganlyniad, mabwysiadodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau interim o fis Hydref 2009, a fu'n effeithiol, hyd nes i Dîm Rheoli Gweithredol parhaol gael ei benodi ym mis Ebrill 2010.

7. Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o feysydd lle mae angen datblygu trefniadau a gwasanaethau ymhellach. Oherwydd maint yr agenda newid o fewn y GIG, mae'n anochel y bydd llawer o drefniadau corfforaethol a meysydd darparu gwasanaethau o fewn yr Ymddiriedolaeth naill ai'n destun adolygiad, neu wrthi'n cael eu newid.

8. Mae'n bwysig y defnyddir y negeseuon allweddol o fy ngwaith archwilio, y ceir crynodeb ohonynt yn yr adroddiad hwn, fel ysgogiad a ffocws ar gyfer sylw rheolwyr i sicrhau y gweithredir gwelliannau mor gyflym â phosibl lle bo'u hangen.

9. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

10. Drwy fy ngwaith ar archwilio cyfrifon, rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Roedd gan yr Ymddiriedolaeth warged o £18,000 ar ddiwedd 2009-10.

11. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- Er bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, gellid gwella'r broses o baratoi cyfrifon ymhellach;
- mae gan yr Ymddiriedolaeth systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol digonol ar waith; fodd bynnag, mae rhai meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

12. Wrth roi barn ddiamod, rwyf wedi tynnu sylw'r Ymddiriedolaeth at nifer o faterion. Mae'r materion hyn yn ymwneud â'r broses o gau'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn a'r broses o baratoi datganiadau ariannol, yn benodol, yr angen i wella ansawdd y papurau gwaith i gefnogi'r datganiadau ariannol a'r broses adolygu ansawdd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

13. Daeth fy ngwaith yn y maes hwn i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

14. Casgliad fy ngwaith asesiad strwythuredig oedd bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau digonol ar waith i reoli'r sefyllfa ariannol fyrdymor; fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig. Mae'r trefniadau llywodraethu a ffactorau sy'n galluogi'r defnydd effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau yn datblygu o hyd mewn rhai meysydd a gellir eu hatgyfnerthu ymhellach.

15. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- er bod y trefniadau ariannol yn ddigonol yn y byrdymor, rhaid rhoi blaenoriaeth i ffurfioli'r cynllun ariannol tymor canolig;
- er bod seiliau trefniadau llywodraethu da wedi'u gosod, mae angen cwblhau'r gwaith datblygu arfaethedig yn gyflym;
- mae trefniadau ar waith i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a gweithio mewn partneriaethau effeithiol, er bod angen cyflawni gwaith pellach i atgyfnerthu'r swyddogaethau 'galluogi' a fydd o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau.

16. Mae fy ngwaith archwilio perfformiad arall yn yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys nifer o adolygiadau o'r pynciau canlynol. Cyflwynir adroddiad ar y pynciau hyn i'r Ymddiriedolaeth yn 2011:

- gwireddu manteision y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol;
- arbedion effeithlonrwydd a gwneud gwell defnydd o adnoddau - adolygiad o adnoddau Iechyd Cyhoeddus;
- gwaith dilynol ar faterion a nodwyd yn yr Adroddiad Etifeddiaeth yn 2009.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Ymddiriedolaeth

17. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 7 Mawrth 2011. Yna caiff ei gyflwyno mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Ymddiriedolaeth.

18. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

## Yr adroddiad hwn

19. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol o waith archwilio a wnaed rhwng mis Hydref 2009 a mis Tachwedd 2010.

20. Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

    a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth;
    b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
    c) bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

21. Mewn perthynas ag c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

    - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
    - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig o'r Ymddiriedolaeth, gan archwilio'r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu, atebolrwydd a rheoli adnoddau;
    - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
    - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
    - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

22. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

23. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawddau canlynol:

    - archwilio cyfrifon;
    - trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

24. Yn olaf, mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i wneud fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

25. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2009-10. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o archwilio datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

26. Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i archwilwyr roi eu barn ar y canlynol:
    - a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
    - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
    - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
    - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
    - rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.
27. Wrth gyflwyno'r farn hon, mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
28. Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
    - amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth;
    - systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

### Er bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, gellid gwella'r broses o baratoi cyfrifon ymhellach

29. Deuthum i'r casgliad bod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth am y cyfnod chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010. Fodd bynnag, nodais nifer o feysydd lle y gellid gwella'r broses o baratoi cyfrifon a systemau rheoli ansawdd.

30. Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 (ISA 260) mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 28 Mehefin 2010. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r gofynion adrodd a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau | Sylwadau'r archwilydd |
| --- | --- |
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | Nid oedd unrhyw addasiadau i dystysgrif nac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd, heblaw am y rhai y mae'r archwilydd o'r farn eu bod yn amlwg yn rhai mân. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol yn ystod yr archwiliad. |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid. | Gwnaed rhai argymhellion i wella'r broses paratoi cyfrifon ymhellach a lleihau unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol rhwng y cyfrifon drafft a'r cyfrifon archwiliedig. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Nid oedd unrhyw faterion y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Roedd hyn yn un mater a ddygwyd i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o ran amseroldeb llunio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol terfynol cytunwyd arno gyda Felindre. Lluniwyd fersiwn terfynol y CLG hwn ym mis Medi 2010. |

31. Ers mis Hydref 2009, cafodd yr Ymddiriedolaeth gymorth gwasanaethau ariannol gan Felindre, fel rhan o'r CLG Cymorth Corfforaethol. Roedd y cytundeb hwn yn cynnwys trefniadau i gau'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn a pharatoi datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth am y cyfnod chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010.

32. Ar 1 Ebrill 2010, lleolwyd sefydliad newydd o'r enw Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn Felindre a gweithredwyd Oracle, sef system cyfriflyfr ariannol newydd. Cafodd y baich gwaith ychwanegol a achoswyd gan hyn ym mis Ebrill 2010 effaith ar broses cau cyfrifon Felindre ar ddiwedd y flwyddyn, a'r broses o baratoi datganiadau ariannol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Rwyf wedi cyflwyno adroddiad o ran y gwelliannau y gellir eu gwneud i wella ymhellach y broses o

gau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn a'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol i Bwyllgor Archwilio Felindre.

33. Nodais yn yr Adroddiad ISA 260 i'r Ymddiriedolaeth a Felindre y gwelwyd rhywfaint o welliant o ran y ffeiliau papurau gwaith, ac ansawdd cyffredinol y papurau i gefnogi'r cyfrifon, o gymharu â'r rheini a gafwyd gan Felindre mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd meysydd yr oedd angen eu gwella ymhellach o hyd ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

34. Nodais hefyd mai prin oedd y dystiolaeth o adolygiad sicrhau ansawdd cadarn o'r cyfrifon drafft gan uwch reolwyr, cyn eu cyflwyno i'w harchwilio. Byddai adolygiad sicrhau ansawdd trylwyr o'r datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol wedi lleihau nifer y diwygiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol a hefyd wedi tynnu sylw staff cyllid at feysydd i'w gwella yn y blynyddoedd i ddod.

35. Mae trafodaethau diweddar a gynhaliwyd rhwng fy staff a Chyfarwyddwr Cyllid Dros Dro Felindre wedi nodi nifer o newidiadau sydd wedi digwydd eisoes, a ddylai gyfrannu at wella'r broses cyfrifon blynyddol ar gyfer 2010-11. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cau cyfrifon yn gynharach ar ddiwedd y mis, a dyrannu'r llwyth gwaith yn fwy cyfartal ar draws yr adran gyllid. Cynhaliwyd trafodaethau pellach rhwng fy staff, Cyfarwyddwr Cyllid Felindre a Chyfarwyddwr Cyllid yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i weithredu gwelliannau o ran y materion hyn.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol digonol ar waith; fodd bynnag, mae rhai meysydd y mae angen eu gwella ymhellach

36. Yn ystod yr archwiliad, ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a weithredwyd gan yr Ymddiriedolaeth a Felindre. Fodd bynnag, roedd meysydd lle gellid gwneud gwelliannau fel y nodir yn Arddangosyn 2 isod, ac rwyf wedi gwneud argymhellion i'r ddwy Ymddiriedolaeth y dylid rhoi trefniadau priodol ar waith i atgyfnerthu'r rheolaethau mewnol ymhellach.
Rwyf ar ddeall fod yr Ymddiriedolaeth a Felindre yn cydweithio'n agos i sicrhau y cymerir camau priodol. Mae Arddangosyn 2 hefyd yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd hyd yma gan yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'm hargymhellion.

**Arddangosyn 2: Materion allweddol a'r camau a gymerwyd**

| Mater allweddol | Camau a gymerwyd |
|---|---|
| **CLG Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol:**<br>• amseroldeb llofnodi'r CLG rhwng yr Ymddiriedolaeth a Felindre;<br>• mae angen sefydlu gweithdrefnau monitro priodol i sicrhau y darperir y gwasanaethau fel y cytunwyd. | Sefydlwyd prosiect i sicrhau y cytunir ar y CLG ac y caiff ei lofnodi'n amserol ac y monitrir y ddarpariaeth o wasanaethau yn ofalus. |
| **Asedau sefydlog:**<br>• gweithredu systemau priodol i ystyried dadgydnabod a lleihad yng ngwerth asedau yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 16. | Datblygu gweithdrefnau a chynnal adolygiad cyn diwedd y flwyddyn. |
| **Argymhellion adroddiadau archwilio mewnol ac allanol:**<br>• sefydlu system gofnodi i gasglu argymhellion archwilio mewnol ac allanol, fel y gall y Pwyllgor Archwilio fonitro'r ffordd y cânt eu gweithredu'n effeithiol. | Caiff cynnydd ei fonitro bellach ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, a chaiff cofnod o'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ei gynnwys ym mhob agenda. |

37. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliais adolygiad o'r rheolaethau lleol sy'n gweithredu ar gyfer y system gyflogres Cofnod Staff Electronig. Cadarnhaodd yr adolygiad hwn fod y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) sy'n ategu'r system gyflogres Cofnod Staff Electronig yn briodol ar y cyfan, gyda threfniadau cymorth da ar waith; fodd bynnag, mae angen gwella rhai rheolaethau amgylcheddol. Mae'r system gyflogres Cofnod Staff Electronig yn ffurfio rhan o CLG yr Ymddiriedolaeth â Felindre; felly, bydd yn bwysig i'r Ymddiriedolaeth fodloni ei hun bod Felindre wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'm hargymhellion yn y maes hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

38. Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Er mwyn helpu i fodloni'r gofyniad hwn, cynhaliodd yr archwilwyr 'asesiad strwythuredig' o'r trefniadau corfforaethol perthnasol yn yr Ymddiriedolaeth. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn wedi ystyried y trefniadau ar gyfer y canlynol:

- rheoli ariannol;
- llywodraethu ac atebolrwydd;
- defnyddio 'ffactorau galluogi' allweddol i ategu'r defnydd o adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

39. Ar y cyfan, deuthum i'r casgliad fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau digonol ar waith i reoli'r sefyllfa ariannol fyrdymor; fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig. Mae'r trefniadau llywodraethu a'r ffactorau sy'n galluogi'r defnydd effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau yn datblygu o hyd mewn rhai meysydd a gellir eu hatgyfnerthu ymhellach.

## Er bod y trefniadau rheoli ariannol yn ddigonol yn y byrdymor, rhaid rhoi blaenoriaeth i ffurfioli'r cynllun ariannol tymor canolig

40. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae safonau uchel wrth reoli arian yn bwysicach nag erioed. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau archwilwyr ar drefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, ac yn ystyried y canlynol:

- trefniadau cynllunio ariannol;
- trefniadau rheoli costau a monitro'r gyllideb;
- y cynnydd a wneir gyda rhaglenni arbed costau, a gallu'r Bwrdd i wario o fewn ei derfynau adnoddau a galluogi'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei tharged o fantoli'r gyllideb.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi o hyd yn datblygu cynllun ariannol tymor canolig ac, er bod trefniadau cynllunio ariannol byrdymor yn ddigonol, gellir gwneud gwelliannau i wella'r broses gynllunio gyffredinol

41. Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu ei chynllun ariannol tymor canolig (y cynllun). Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd. Roedd nifer o ffactorau a gyfrannodd at oedi cyn dechrau'r gwaith i ddatblygu'r cynllun a oedd yn cynnwys:

- dim cyfnod 'cysgodol' cyn sefydlu'r Ymddiriedolaeth ar 1 Hydref 2010;
- cael gwybod yn hwyr gan Lywodraeth y Cynulliad am ddyraniad ariannu'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2010-11.

42. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, a'r ffaith bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2011, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad beidio â phennu'r un terfyn amser i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer llunio cynllun ariannol tymor canolig a bennwyd ar gyfer cyrff eraill y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd yn bwysig i'r Ymddiriedolaeth ffurfioli'r cynllun cyn gynted â phosibl, gan sicrhau bod cysylltiadau clir rhwng y cynllun ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.

43. Ymddengys fod y trefniadau cynllunio ariannol byrdymor yn effeithiol, gyda phrosesau ar waith ar gyfer adolygu'r cynlluniau blynyddol. Er bod tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad rhwng cynlluniau ariannol a chynllunio gwasanaethau, mae angen mwy o eglurder i ddangos sut y mae'r strategaeth TG a'r strategaeth gweithlu wedi'u hadlewyrchu yn y cynlluniau ariannol.

**Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau digonol ar waith i fonitro perfformiad ariannol; fodd bynnag, gellid gwella lefel y manylion a roddir i'r Bwrdd mewn meysydd penodol**

44. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau ar waith o fewn adrannau gwasanaeth i graffu ar berfformiad yn erbyn cyllidebau yn y cynllun ariannol blynyddol a chymryd camau adferol ar gyfer amrywiadau sylweddol. Mae timau ac adrannau cyllid yn cyfarfod yn fisol i asesu perfformiad, a chyflwynir adroddiadau ar hyn i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth ariannol fisol reolaidd, sy'n cynnwys adroddiad naratif gan y Cyfarwyddwr Cyllid i ategu'r adroddiadau monitro misol. Fodd bynnag, gellid gwella lefel y manylion a roddir i'r Bwrdd er mwyn cynnwys:

- rhagor o fanylion am berfformiad yn erbyn cyllidebau ar lefel is-gyfarwyddiaeth;
- rhagor o fanylion am gyflawni cynlluniau arbedion unigol, gan wahaniaethu rhwng cynlluniau arbedion 'staff' a rhai 'nad ydynt yn staff' a rhwng cynlluniau cylchol ac anghylchol;
- risgiau ariannol tebygol heblaw am y risg i fantoli'r gyllideb.

45. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i nodi pwysau ariannu ar ddechrau'r flwyddyn, sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i nodi'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r cynllun arbedion blynyddol ond yn cynnwys arbedion anghylchol, sy'n ddigonol ar gyfer y broses cynllunio ariannol byrdymor, ond dylid rhoi mwy o ystyriaeth i nodi arbedion cylchol dros yr hirdymor.

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau gwario sydd ar gael iddi ac yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer 2010-11**

46. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged o £18,000 ar gyfer y cyfnod chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 heb angen cymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddi oherwydd trefniadau rheoli ariannol da, ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer 2010-11.

47. Bydd angen monitro cyflawni targedau ariannol statudol yn ofalus gan fydd y pwysau o ran costau yng Nghymru yn cynyddu. Bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth, fel pob corff iechyd arall yng Nghymru, wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Bydd llunio fersiwn terfynol y cynllun ariannol tymor canolig yn adnodd pwysig o ran nodi a fydd adnoddau yn y dyfodol yn ddigonol i gyflawni cynlluniau gwariant yn y dyfodol.

## Er bod seiliau trefniadau llywodraethu da wedi'u gosod, mae angen cwblhau'r gwaith datblygu arfaethedig yn gyflym

48. Mae safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd yn ofynion hanfodol wrth ddangos y gwarchodir arian cyhoeddus yn effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt 'fframwaith sicrwydd' effeithiol ar waith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ar berfformiad. Fel rhan o'r asesiad strwythuredig, mae

archwilwyr wedi edrych ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth.

49. Er bod seiliau trefniadau llywodraethu da wedi'u gosod, deuthum i'r casgliad bod angen cwblhau'r gwaith datblygu arfaethedig yn gyflym. Deuthum i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol.

**Nid yw dull yr Ymddiriedolaeth o bennu, gweithredu ac adolygu amcanion strategol a gweithredol wedi'i ddatblygu'n llawn hyd yma.**

50. Ym mis Hydref 2010, lansiodd yr Ymddiriedolaeth ei strategaeth sefydliadol pum mlynedd yn dilyn trafodaethau gyda staff a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r strategaeth pum mlynedd yn nodi uchelgais, diben a gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth a saith amcan strategol lefel uchel, ac mae'n gyson â gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer iechyd y cyhoedd.

51. Mae'r saith amcan strategol yn rhai lefel uchel ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r amcanion a'r cynlluniau ar lefel weithredol i'w hategu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn llunio fersiwn terfynol y cynlluniau gweithredu a fydd yn sail i'r amcanion strategol yn chwarter cyntaf 2011. Er bod y strategaeth yn nodi'n fras sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflawni'r saith amcan, nid yw mesurau llwyddiant manylach ar gyfer asesu'r saith amcan strategol wedi'u datblygu hyd yma.

52. Dylai'r saith amcan strategol a'r amcanion ar lefel weithredol a ddatblygir gefnogi'r broses o baratoi Fframwaith Gweithlu Gwasanaeth ac Ariannol yr Ymddiriedolaeth.

**Nid yw'r strwythur sefydliadol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd wedi'i sefydlu'n llawn eto**

53. Rwy'n cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn datblygu ei strwythur sefydliadol a'i drefniadau rheoli dros y 12 i 16 mis diwethaf. Ni chafodd yr Ymddiriedolaeth y fantais o gyfnod cysgodol hyd 1 Hydref 2009 ac, am chwe mis cyntaf ei gweithrediad, roedd yn dibynnu ar strwythur rheoli dros dro. Ers hynny, bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed, drwy ei rhaglen trawsnewid sefydliadol, i osod y seiliau i gefnogi strwythur sefydliadol effeithiol. Nid oedd y trefniadau datblygiadol hyn o fudd i effeithiolrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, a gellir ei atgyfnerthu ymhellach nawr drwy gyfnod o sefydlogrwydd ar y lefel weithredol.

54. Mae strwythur y Bwrdd wedi cymryd amser i ddatblygu drwy 2010. Mae swydd Cyfarwyddwr Datblygu Iechyd Cyhoeddus yn wag o hyd. Mae'n rôl allweddol ac mae'n hanfodol o ran y rhyngwyneb â'r byrddau iechyd newydd.

55. Roedd swydd ar y Bwrdd ar gyfer Cyfarwyddwr Anweithredol yn cynrychioli'r undebau llafur hefyd wedi parhau i fod yn wag drwy 2010. Mae'r Ymddiriedolaeth yn aros i Lywodraeth y Cynulliad benodi'r Cyfarwyddwr Anweithredol hwn. Mae hefyd wedi cymryd amser i lenwi swyddi allweddol eraill, yn enwedig rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Llenwyd y rôl hon gan secondiad am ran helaeth o 2010, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi dibynnu ar gymorth strategol gan Felindre. Ym mis Rhagfyr 2010, penododd yr

Ymddiriedolaeth Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol newydd, er na fydd yn dechrau yn y swydd tan fis Ebrill 2011.

56. Oherwydd maint cymharol fach yr Ymddiriedolaeth, mae llawer o feysydd o gymorth corfforaethol wedi, yn y byrdymor, eu darparu gan Felindre o dan delerau CLG 18 mis. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau adolygiad o'r cytundeb i asesu pa wasanaethau y gallai Felindre barhau i'w darparu, a pha wasanaethau y gellid eu darparu'n fewnol bellach.

**Er bod strwythur pwyllgor y Bwrdd a'r cynllun dirprwyo ar waith, mae trefniadau perfformiad, risg a rheoli clinigol yn cael eu datblygu o hyd ac mae polisïau gweithredol a fabwysiadwyd yn cael eu cysoni o hyd.**

57. Mae cynllun dirprwyo effeithiol ar waith, a nodwyd yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth. Mae cynlluniau dirprwyo ar waith ond bydd angen eu diweddaru ar gyfer y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Rheolau Sefydlog enghreifftiol newydd pan gânt eu cyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad ar ddechrau 2011. Cadarnhawyd Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2009.

58. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw'r Rheolau Sefydlog wedi'u diweddaru'n llawn hyd yma.
Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi o hyd eu bod yn rhai 'dros dro' a'u bod yn seiliedig ar y modelau dros dro a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal nid ydynt wedi'u diweddaru i adlewyrchu teitlau swyddi Cyfarwyddwyr Gweithredol, pwyllgorau'r Bwrdd neu arweinwyr ac eiriolwyr a benodwyd gan y Cadeirydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diweddaru'r Rheolau Sefydlog ar ddechrau 2011 ar gyfer yr holl drefniadau hyn pan gaiff y canllawiau enghreifftiol 'terfynol' eu cyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad.

59. Sefydlwyd pwyllgorau'r Byrddau, a chytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer pob un. Mae pob pwyllgor wedi'i gadeirio gan aelod annibynnol ac mae'n cyfarfod yn chwarterol. Mae pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys y canlynol:

- Y Pwyllgor Archwilio;
- Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch;
- Y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth.

60. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i ddatblygu rhaglenni gwaith pob pwyllgor yn llawn ac ymgorffori pwyllgorau'r Bwrdd yn llawn yn y sefydliad.

61. Ers mis Hydref 2009, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi bod yn gweithio yn unol â pholisïau gweithredol gwahanol, a allai arwain at anghydraddoldeb a dryswch ymhlith staff. Etifeddodd yr Ymddiriedolaeth bolisïau oddi wrth sefydliadau rhagflaenol a sefydlodd prosiect i ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno, adolygu a diwygio polisïau. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n adolygu pob polisi a etifeddwyd o gyrff rhagflaenol er mwyn eu diweddaru lle y bo angen. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf yn cael eu hadolygu fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn briodol a bod staff yr Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd cyson ohonynt. Nid yw effeithiolrwydd llawn y Bwrdd wedi'i wireddu eto oherwydd y broses barhaus o ddatblygu

systemau rheoli allweddol. Er enghraifft, mae'r trefniadau llywodraethu perfformiad, risg a llywodraethu clinigol yn cael eu datblygu o hyd, ac mae swyddi allweddol ar lefel y Bwrdd yn parhau'n wag.

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ddibynnu ar amryw o systemau a pholisïau rheoli risg a etifeddwyd, er bod gwaith i atgyfnerthu a chryfhau'r trefniadau hyn yn mynd rhagddo bellach.**

62. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar amryw o systemau a pholisïau rheoli risg a etifeddwyd oddi wrth sefydliadau rhagflaenol. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar gynllun datblygu rheoli risg ym mis Rhagfyr 2010. Nod y cynllun hwn yw cyflawni a gweithredu proses rheoli risg integredig erbyn mis Ebrill 2011. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth rheoli risg, polisi a fframwaith i asesu a rheoli risgiau.

63. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n gweithredu'r system gwe DATIX ar y we drwy'r Ymddiriedolaeth i helpu i reoli risg, sy'n cynnwys modiwlau ar asesu risg, y gofrestr risg a chofnodi. Mae'r system hon yn caniatáu cofnodi digwyddiadau ac asesiadau risg gan ddefnyddio ffurflenni ar y we drwy un man mynediad.

64. Mae strwythurau llywodraethu ar waith i helpu i reoli risg. Sefydlwyd Grŵp Rheoli Risg i adolygu a rheoli pob risg weithredol ar lefel adrannol a'r materion a nodwyd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am reoli proffil risg yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn cofnodi risgiau gweithredol perthnasol drwy gofrestr o risgiau corfforaethol a gweithredol a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae'r gofrestr hon yn cynnwys y risgiau yr asesir eu bod yn berthnasol.

65. Mae fy ngwaith wedi nodi rhai gwelliannau sy'n ofynnol o ran y ffordd y caiff risgiau eu cofnodi yn y cofrestrau gweithredol a chorfforaethol. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl wybodaeth am risgiau a geir yn y gofrestr wedi'i chwblhau ar gyfer pob cofnod a sicrhau bod y wybodaeth yn gyfoes.

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu fframwaith ar gyfer amgylchedd rheoli mewnol effeithiol, er bod angen cyflawni gwaith datblygu pellach.**

66. Bu'r Ymddiriedolaeth yn gosod seiliau'r amgylchedd rheoli mewnol drwy gydol 2010. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael sicrwydd o nifer o feysydd, gyda chydbwysedd rhwng ffynonellau mewnol ac allanol. Mae'r systemau rheoli mewnol allweddol wedi'u cyfeirio drwy strwythur pwyllgor y Bwrdd. Ceir fframwaith ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, a chyflwynir adroddiadau ar hyn i bwyllgorau perthnasol y Bwrdd a'r Bwrdd llawn.

67. Mae'r ffynonellau sicrwydd allweddol sy'n cyfrannu at amgylchedd rheoli mewnol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn rhoi dealltwriaeth glir o fframwaith rheoli mewnol yr Ymddiriedolaeth ac yn helpu i sicrhau y caiff prosesau sicrwydd eu cydgysylltu.
- Mae archwilio mewnol yn darparu gwasanaeth boddhaol i'r Ymddiriedolaeth ac mae'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol ar

gyfer y GIG yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn gweithio'n dda gyda'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu strategaeth archwilio a chynllun gwaith fu'n destun asesiad risg.

- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth sy'n nodi sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni ei busnes.

68. Mae archwilio clinigol yn elfen hanfodol o sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau cleifion. Gellir ei ddefnyddio hefyd fel ffynhonnell werthfawr o sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu ei rhaglen datblygu archwilio clinigol a'r cynllun cysylltiedig drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Fodd bynnag, gan nad oes gan yr Ymddiriedolaeth Gyfarwyddwr Nyrsio, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus sy'n gyfrifol am arwain archwilio clinigol.

69. Gan fod strategaeth pum mlynedd yr Ymddiriedolaeth wedi'i gymeradwyo ym mis Hydref 2010, gall y broses o ddatblygu rhaglen archwilio glinigol gael ei llywio bellach gan amcanion strategol allweddol yr Ymddiriedolaeth. Dylai Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth gytuno ar y rhaglen hon hefyd, a bydd y pwyllgor hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn y rhaglen. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd hefyd o ran datblygu cynllun gwella Safonau Gofal Iechyd.

### Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu strategaeth Rheoli Gwybodaeth a strategaeth Llywodraethu Technoleg a Gwybodaeth ac mae wrthi'n datblygu'r trefniadau angenrheidiol ar hyn o bryd.

70. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar y strategaeth a'r polisi Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg neu'r strategaeth a'r polisi Llywodraethu Gwybodaeth a etifeddwyd oddi wrth sefydliadau rhagflaenol. Byddai'n fuddiol diweddaru'r strategaethau a'r polisïau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Nid oes unrhyw strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg na strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth ffurfiol y cytunwyd arnynt ar waith sy'n ategu cynlluniau strategol diweddaraf yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ddwy strategaeth hyn a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ymgynghori ar y strategaethau hyn ar ddechrau 2011 a sicrhau eu bod wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod chwarter cyntaf 2011.

71. Gellid atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu o ran Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a Llywodraethu Gwybodaeth. Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad sy'n gyfrifol am Lywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. Yn wahanol i sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru, nid oes Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n arwain materion Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a materion Llywodraethu Gwybodaeth. Sefydlwyd Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn ymdrin â'r strategaeth llywodraethu gwybodaeth a materion gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn gyfrifol nac yn atebol am y strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg neu faterion cysylltiedig. Nid oes unrhyw un o is-bwyllgorau eraill Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg.

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dibynnu ar drefniadau monitro perfformiad a etifeddwyd oddi wrth ei gyrff rhagflaenol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ac atgyfnerthu'r systemau hyn**

72. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar drefniadau rheoli perfformiad ei gyrff rhagflaenol ar hyn o bryd. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys cardiau sgorio cytbwys yn bennaf. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu perfformiad adrannol yn chwarterol drwy'r cerdyn sgorio cytbwys gan gyflwyno data ar gyfer y chwarter blaenorol. Nid yw gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd mewn perthynas â monitro perfformiad yn cynnwys naratif manwl, er enghraifft, i egluro tueddiadau ac amrywiadau yn erbyn amcanion gwasanaeth ehangach.

73. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu'r dull rheoli perfformiad presennol a'r cardiau sgorio cytbwys i lunio fframwaith sy'n addas at y diben i'r Ymddiriedolaeth. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y trefniadau monitro perfformiad hefyd yn darparu mesurau i asesu'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol a rhoi sicrwydd digonol i'r Bwrdd bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol. Byddai'r trefniadau newydd hyn yn caniatáu i'r Bwrdd nodi ac asesu cyfraniad y gyfarwyddiaeth tuag at gyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth. Byddai fframwaith rheoli perfformiad cadarnach hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni yn erbyn y Cytundeb hirdymor a'r Cytundebau Lefel Rhaglen.

74. Yn allanol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Cytundeb Hirdymor drwy gyfarfod chwe misol ffurfiol rhwng ei Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Cynhelir dau gyfarfod anffurfiol bob blwyddyn hefyd, a gynhelir bob chwe mis rhwng Prif Swyddog Meddygol GIG Cymru a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth.

75. Mae trefniadau monitro perfformiad Cytundebau Lefel Rhaglen yn amrywio gan ddibynnu ar y rhaglen, a gall fod yn fisol neu'n chwarterol. Bydd gan bob Cytundeb Lefel Rhaglen berchennog cyfrifol yn Llywodraeth y Cynulliad a'r Ymddiriedolaeth, er nad yw rhai o'r cytundebau wedi'u llofnodi hyd yma.

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar drefniadau ei gyrff rhagflaenol i sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes, ac mae'n teilwra'r polisïau hyn mewn ffordd strwythuredig.**

76. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei bolisïau na'i weithdrefnau ei hun yn llawn hyd yma mewn perthynas â chywirdeb a phriodoldeb ac, yn y cyfamser, mae'n dibynnu i raddau helaeth ar bolisïau a gweithdrefnau ei chyrff rhagflaenol. Gall anghysondebau o ran y polisïau hyn beri risgiau o ran cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal busnes yr Ymddiriedolaeth.

77. Sefydlwyd prosiect diweddaru polisïau i bennu systemau i adolygu polisïau a etifeddwyd a datblygu polisïau sy'n briodol i'r Ymddiriedolaeth.
Bwriedir cwblhau'r prosiect erbyn diwedd 2011, ac mae'r polisïau hynny sydd fwyaf angen sylw yn cael eu hystyried fel blaenoriaeth gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adolygiad hwn o bolisïau hefyd yn cynnwys y polisïau hynny i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

78. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau gwrth-dwyll priodol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol, ac mae cymorth ar gael i adolygu'r trefniadau gwrth-dwyll. Mae Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo'r polisi gwrth-dwyll a chynllun gwaith gwrth-dwyll blynyddol. Mae'r arbenigwyr gwrth-dwyll yn cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth, lle caiff cynnydd o ran y cynllun gwaith gwrth-dwyll ei adolygu'n rheolaidd a chreffir ar adroddiadau terfynol.

## Mae trefniadau ar waith i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a gweithio mewn partneriaethau effeithiol, er bod angen cyflawni gwaith pellach i atgyfnerthu'r swyddogaethau 'galluogi' a fydd o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau

79. Mae prosesau rheoli cadarn mewn perthynas ag adnoddau allweddol, megis pobl ac asedau, yn rhan hanfodol o'r gwaith o sicrhau gwerth da am arian. Mae angen i gynlluniau datblygu gwasanaethau ac arbed costau gael eu hategu gan waith effeithiol o ran cynllunio'r gweithlu, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn y meysydd canlynol:

- trefniadau cynllunio'r gweithlu;
- caffael;
- rheoli asedau;
- gweithio gyda sefydliadau partner;
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

### Datblygwyd cynlluniau gweithlu digonol ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd angen eu mireinio i adlewyrchu newidiadau o ran modelau gwasanaeth ac i'w cysoni â'r cynllun ariannol tymor canolig.

80. Yn ystod gwanwyn 2010, datblygodd yr Ymddiriedolaeth ei chynlluniau i'r gweithlu, yn bennaf ar sail y modelau darparu staff a etifeddwyd oddi wrth ei chyrff rhagflaenol. Roedd y cynlluniau hyn yn gadarn ar y cyfan ac fe'u cymeradwywyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd.

81. Mae'r cynlluniau gweithlu yn cefnogi ac yn adlewyrchu nodau ariannol presennol yr Ymddiriedolaeth, arferion gwaith presennol a phatrymau darparu gwasanaethau. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn golygu y gallai modelau darparu gwasanaethau a chymysgeddau sgiliau newid eto. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen mireinio'r cynlluniau gweithlu ymhellach yn 2011 er mwyn eu cysoni â chynllun ariannol tymor canolig yr Ymddiriedolaeth.

82. Roedd hefyd wedi sefydlu prosiect Model Darparu Gwasanaethau ar ddiwedd 2010 i adolygu ac ailgynllunio gwasanaethau sydd angen eu hailgyflunio, yn enwedig timau iechyd cyhoeddus lleol. Bydd yr adolygiad o'r prosiect Model Darparu Gwasanaethau hefyd yn llywio cynlluniau gweithlu yn y dyfodol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl cwblhau'r prosiect erbyn canol 2011. Rhaid

cyflwyno cynlluniau gweithlu diwygiedig i Lywodraeth y Cynulliad erbyn 31 Mawrth 2011.

### Mae dull yr Ymddiriedolaeth o reoli sail asedau ei hystad yn datblygu o hyd drwy ddatblygu strategaeth adeiladau

83. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ystad gymharol fach o'i chymharu â sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru. Yn hytrach nag adeiladau ysbyty, mae asedau ystad yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys tua 50 o safleoedd sy'n swyddfeydd yn bennaf, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ar brydles, a chyfleusterau ar gyfer ei gwasanaethau sgrinio. Mae llawer o staff yr Ymddiriedolaeth eisoes yn gweithio yn y safleoedd hyn, sy'n eiddo i sefydliadau sector cyhoeddus eraill, er enghraifft byrddau iechyd lleol, neu wedi'u rheoli gan sefydliadau eraill o'r fath.

84. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael cymorth ac arweiniad ym maes rheoli ystadau strategol, rheoli diogelwch tân a chynllunio cyfalaf drwy'r CLG Gwasanaethau Corfforaethol â Felindre.

85. Yn ystod hydref 2010, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad i ystyried anghenion y sefydliad o ran adeiladau nawr ac yn y dyfodol. Ar sail yr adolygiad hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu strategaeth ystad ac adeiladau erbyn diwedd mis Ebrill 2011.

86. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw ddangosyddion perfformiad ar hyn o bryd sy'n mesur ac yn asesu perfformiad ei hystadau. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn cael budd o ddefnyddio dangosyddion o'r fath i gyflwyno adroddiadau, yn flynyddol o leiaf, ar berfformiad ei ystad i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

### Byddai datblygu cynllun gwella caffael yn cefnogi'r broses o gyflawni arbedion effeithlonrwydd ym maes caffael

87. Mae Felindre yn darparu gwasanaethau caffael i'r Ymddiriedolaeth drwy'r CLG Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Felindre hefyd yn llunio dangosyddion perfformiad a cherdyn sgorio cytbwys sy'n dangos cynnydd yn erbyn y targedau perfformiad caffael y cytunwyd arnynt gan yr Ymddiriedolaeth.

88. Mae'r dangosyddion perfformiad caffael hyn yn dangos cynnydd yn erbyn targedau perfformiad y cytunwyd arnynt. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni'r targed o dalu anfonebau o fewn 30 diwrnod, mae lle i wella ymhellach o ran llawer o'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn er mwyn gwella cyrhaeddiad a dylanwad caffael drwy'r Ymddiriedolaeth.

89. O dan y CLG, mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar y strategaeth gaffael a ddefnyddiwyd gan Felindre. Rwy'n cydnabod bod cynigion ar gyfer asiantaeth Gwasanaethau'r GIG a Rennir i Gymru Gyfan sy'n cynnwys caffael. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth (yn wahanol i sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru) strategaeth gaffael ffurfiol na chynllun gwella cysylltiedig. Byddai'n fuddiol pe bai'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynllun gweithredu i lywio rhaglen gwella caffael. Dylai'r cynllun hwn nodi meysydd lle gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd ym maes caffael.

90. Mae lle i weithio gyda swyddogaeth gaffael Felindre i wella gwybodaeth prynu'r Ymddiriedolaeth, er mwyn nodi lle gellir gwneud gwelliannau. Er enghraifft, drwy nodi'r eitemau a brynir yn gyffredin a'r cyflenwyr a ddefnyddir nad ydynt wedi'u cynnwys gan gontractau.

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth, ac mae'n amlwg ei bod yn ymrwymedig i hynny, ond mae'r amser a gymerir i lenwi'r uwch strwythur staffio yn llesteirio cynnydd**

91. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid drwy gryn dipyn o'i gwaith ar lefel strategol a lefel weithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus. Fel ymddiriedolaeth GIG newydd, mae'n parhau i ddatblygu cydberthnasau strategol â phartneriaid allweddol.

92. Nodwyd ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i weithio mewn partneriaeth mewn cytundeb tairochrog rhwng yr Ymddiriedolaeth, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Mae'r cytundeb yn nodi'r disgwyliadau a'r cyfrifoldebau ar bob sefydliad i gydweithio mewn ffordd gefnogol i'w gilydd i fynd i'r afael â'r heriau ym maes iechyd y cyhoedd sy'n wynebu Cymru.

93. Gellir datblygu trefniadau ar gyfer gweithio gyda rhai sefydliadau partner ymhellach mewn nifer o feysydd pwysig. Y maes allweddol i'r Ymddiriedolaeth ganolbwyntio arno yw gweithio mewn partneriaeth â'r byrddau iechyd drwy'r Cyfarwyddwr Datblygu Iechyd Cyhoeddus. mae cynnydd wedi'i lesteirio'n rhannol gan yr oedi o hyd o fewn yr Ymddiriedolaeth o ran penodi Cyfarwyddwr Datblygu Iechyd Cyhoeddus a'r oedi rhwng cytuno ar gontractau'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus rhwng y Cyfarwyddwr hwnnw a'r BILlau. Mae angen o hyd i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a gweithredu modelau newydd o weithio mewn partneriaethau integredig gyda'r byrddau iechyd drwy'r saith Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus. Mae prosiect Model Darparu Gwasanaethau hefyd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac mae'n bosibl y bydd angen newid strwythurau staffio'r Ymddiriedolaeth ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus gweithredol.

**Ymgysylltir â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau yn anuniongyrchol drwy'r broses ymgynghori ar strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles a thrwy'r Adran Sgrinio; fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd na defnyddwyr gwasanaethau.**

94. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau mewn sawl ffordd. Mae Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus y byrddau iechyd lleol yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn flynyddol fel rhan o'r broses o ddatblygu'r agenda iechyd cyhoeddus leol a'r strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Felly, cesglir barn y cyhoedd ar flaenoriaethau iechyd cyhoeddus yn anuniongyrchol ar ran yr Ymddiriedolaeth. Caiff y strategaethau hyn eu cwblhau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, yn aml drwy fforymau cleifion, ac fe'u hategwyd gan asesiadau o anghenion iechyd.

95. Mae gan yr Adran Sgrinio agenda ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gyflwyno newidiadau newydd neu allweddol i'r rhaglenni sgrinio. Mae'r Adran Sgrinio yn defnyddio grwpiau ffocws o ddefnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio gwasanaethau sgrinio newydd.

96. Mae'r enghreifftiau uchod o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn digwydd er nad oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ymgysylltu y cytunwyd arni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw wedi datblygu strategaeth ffurfiol ar draws y sefydliad hyd yma ar gyfer ymgysylltu cynlluniedig â'r cyhoedd neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Dylai'r strategaeth hon gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd a chefnogi amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi rolau, cyfrifoldebau ac adnoddau clir ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Atodiad 1

# Adroddiadau a gyflwynwyd ers 1 Hydref 2009

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Cyfrifon Ariannol ac Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu | 28 Mehefin 2010 |
| Adroddiad Memorandwm Datganiadau Ariannol 2009-10 | 31 Ionawr 2011<br>(gohiriwyd o 20 Rhagfyr 2010) |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad*** | |
| Asesiad strwythuredig | 7 Mawrth 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Strategaeth Archwilio | 11 Mawrth 2010 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol | 7 Mawrth 2011 |

**Nodiadau**

* Mae Paragraff 16 o'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith archwilio perfformiad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac y cyflwynir adroddiadau arno yn 2011.

Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2010 ffi archwilio arfaethedig o £129,282 (ac eithrio TAW).

Mae'r tabl isod yn nodi fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd.

**Dadansoddiad o ffi archwilio arfaethedig a ffi archwilio wirioneddol 2009-2010**

| Maes y cod | Y ffi arfaethedig (£) | Ffi wirioneddol amcangyfrifedig (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon | £59,038 | £63,841* |
| Archwilio perfformiad | £70,244 | £70,244 |
| **Cyfanswm** | **£129,282** | **£134,085** |

### Nodiadau

* Cododd y ffi ychwanegol o £4,803 oherwydd yr amser ychwanegol yr oedd ei angen i gwblhau'r archwiliad o ddatganiadau ariannol 2009-10.

DRAFT

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk